ATODLEN 1

CYNLLUN PENSIWN NEWYDD Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU)

# RHAN 7

## PERSONAU WRTH GEFN

**Dyfarndaliadau yn sgil marwolaeth neu anabledd parhaol**

**3.**—(1) Mae gan berson wrth gefn sydd, ar ddiwedd ei gyfnod yn y lluoedd, wedi'i anablu'n barhaol([**1**]) am gyflawni dyletswyddau diffoddwr tân oherwydd gwendid nad yw—

(a) yn gysylltiedig ag unrhyw anaf a gafwyd yn ystod ei gyfnod yn y lluoedd; na

(b) yn anaf cymhwysol,

hawlogaeth i gael dyfarndal o dan reol 2 o Ran 3 (dyfarndal yn sgil ymddeoliad oherwydd afiechyd).

(2) Pan fo person wrth gefn yn marw—

(a) yn ystod ei gyfnod yn y lluoedd;

(b) o effeithiau anaf a oedd yn peri iddo fod yn analluog i gyflawni dyletswyddau diffoddwr tân; neu

(c) tra bo'n cael pensiwn o dan y Cynllun hwn,

mae dyfarndal yn daladwy yn unol â pharagraff (3) a (4).

(3) O ran marwolaeth y person wrth gefn —

(a) os nad yw'n ganlyniad i anaf cymhwysol, a

(b) os yw'n digwydd yn ystod ei gyfnod yn y lluoedd,

mae pensiwn goroeswr o dan Bennod 1 o Ran 4 yn daladwy i'w briod, partner sifil neu bartner enwebedig (yn ôl y digwydd) fel petai'r person wrth gefn yn aelod-ddiffoddwr tân a oedd â hawlogaeth fel a grybwyllwyd yn rheol 1(a) o'r Rhan honno.

(4) Pan fo marwolaeth y person wrth gefn yn digwydd yn ystod ei gyfnod yn y lluoedd ac nad yw'n ganlyniad i anaf cymhwysol —

(a) mae pensiwn plentyn yn daladwy o dan Bennod 2 o Ran 4 fel petai—

(i) y person wrth gefn yn aelod-ddiffoddwr tân a fu farw tra bo'n cael ei gyflogi gan awdurdod; a

(ii) paragraff (1)(c), (2) a (3) o reol 8 wedi'u hepgor; a

(b) mae grant marwolaeth yn daladwy o dan reol 1 o Ran 5.

([**1**]) *Gweler* rheol 3 o Ran 1.